## ATODLEN 1

rheoliad 5

### DOSBARTHIADAU NEU DDISGRIFIADAU O WARIANT CYNLLUNIEDIG A RAGNODWYD AT DDIBENION CYLLIDEB AALl AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Mae gwariant o ddosbarth neu ddisgrifiad y cyfeirir ato yn yr Atodlen hon yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion.

**Darpariaeth o natur arbenigol**

**1.** Gwariant ar wasanaethau a roddir gan seicolegwyr addysgol.

**2.** Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adrannau 321 i 331 o Ddeddf 1996 (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adnabod ac asesu plant ag anghenion addysgol arbennig a llunio, cynnal ac adolygu datganiadau ar gyfer y plant hynny).

**3.** Gwariant ar fonitro'r ddarpariaeth i ddisgyblion mewn ysgolion (os cynhelir hwy gan yr awdurdod neu beidio) at ddibenion lledaenu arferion da mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar eu cyfer.

**4.** Gwariant ar gydweithio â chyrff statudol a gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig.

**5.** Gwariant mewn cysylltiad â'r canlynol —

(a) darparu gwasanaethau partneriaeth â rhieni(**1**) neu arweiniad a gwybodaeth arall i rieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd, mewn perthynas â disgyblion mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarperir fel arfer gan gyrff llywodraethu ysgolion o'r fath; neu

(b) trefniadau a wneir gan yr awdurdod er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau â rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig.

**6.** Gwariant a dynnir wth baratoi ac adolygu cynllun sy'n nodi'r trefniadau a wneir, neu y bwriedir eu gwneud, gan yr awdurdod mewn cysylltiad ag addysg plant ag anawsterau ymddygiad o dan adran 527A o Ddeddf 1996(**2**).

**7.** Gwariant ar gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan Ddeddf Plant 1989(**3**) ac o dan adran 175(**4**) o Ddeddf 2002 a swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

**8.** Gwariant a dynnir wrth ymglymu i drefniant neu a dynnir wedyn yn unol â threfniant o dan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**5**).

**9.** Gwariant wrth ddarparu cymorth meddygol arbennig ar gyfer disgyblion unigol i'r graddau na thelir gwariant o'r fath gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol(**6**)) neu'r Bwrdd Iechyd Lleol(**7**) neu'r Cynulliad Cenedlaethol.

---

(**1**) Gwasanaethau partneriaeth â rhieni yw'r gwasanaethau y darperir ar eu cyfer o dan adran 332A o Ddeddf Addysg 1996 i roi cyngor a gwybodaeth i rieni plant ag anghenion addysgol arbennig.

(**2**) Mewnosodwyd adran 527A gan adran 9 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a diwygiwyd hi gan baragraff 144 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998.

(**3**) 1989 p.41.

(**4**) Caiff adran 175 ei dwyn i rym ar ddiwrnod sydd i'w benodi.

(**5**) 1991 p.81.

(**6**) Diffinnir National Health Service Trusts yn adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 p.19.

(**7**) Sefydlir Byrddau Iechyd Lleol drwy orchymyn a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) fel y mewnosodwyd hi gan adran 6(1) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17).

**Gwelliannau mewn ysgolion**

**10.** Gwariant a dynnir gan yr awdurdod mewn perthynas â chamau i gefnogi gwella safonau yn ysgolion yr awdurdod, gan gynnwys, yn benodol —

(a) gwariant a dynnir wrth baratoi, adolygu a gweithredu cynllun datblygu addysg yr awdurdod o dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf 1998;

(b) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan adran 197 o Ddeddf 2002;

(c) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag ymrwymo i gontract yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63 o Ddeddf 2002 (contractau i sicrhau gwasanaethau o natur gynghorol mewn perthynas ag ysgolion â gwendidau difrifol neu ysgolion y mae arnynt angen mesurau arbennig);

(ch) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan adran 14 i 17 o Ddeddf 1998 (pwerau ymyrryd, penodi llywodraethwyr ychwanegol ac atal cyllidebau a ddirprwywyd mewn ysgolion sy'n peri pryder); a

(d) gwariant ar benodi a thalu aelodau o weithrediaeth dros dro o dan adran 16A o Ddeddf 1998(**8**)).

**Mynediad i addysg**

**11.** Gwariant mewn perthynas â'r materion canlynol —

(a) rheoli rhaglen gyfalaf awdurdod gan gynnwys paratoi ac adolygu cynllun rheoli asedau a thrafod a rheoli trafodion cyllid preifat;

(b) cynllunio a rheoli'r cyflenwad o leoedd ysgol, gan gynnwys swyddogaethau'r awdurdod —

(i) mewn perthynas â chynllun trefniadol ysgolion yn unol ag adran 26 o Ddeddf 1998,

(ii) mewn perthynas â sefydlu, addasu neu gau ysgolion yn unol â Phennod II o Ran II o Ddeddf 1998 neu adran 113A o Ddeddf 2000 ac Atodlen 7A iddi(**9**);

(c) swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â gwahardd disgyblion o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion, heb gynnwys darparu unrhyw addysg i'r disgyblion hynny, ond gan gynnwys cyngor i rieni disgybl a waharddwyd;

(ch) gweinyddu'r system i dderbyn disgyblion i ysgolion (gan gynnwys apelau derbyn ac ymgynghori o dan adran 89(2) o Ddeddf 1998);

(d) gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 85A o Ddeddf 1998(**10**) (sydd yn darparu ar gyfer sefydlu a chynnal fforymau derbyn);

(dd) swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 509 a 509AA i 509AC(**11**) o Ddeddf 1996 (cludiant o'r cartref i'r ysgol ac o'r cartref i'r coleg);

(e) swyddogaethau'r awdurdod o dan adrannau 510 a 514 o Ddeddf 1996 (darparu a gweinyddu grantiau dilladu a grantiau byrddio), ac yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 518(1)(c)(**12**)) o Ddeddf 1996.

**12.** Gwariant ar y Gwasanaeth Lles Addysg a gwariant arall sy'n deillio o swyddogaethau'r awdurdod o dan Bennod II o Ran VI o Ddeddf 1996 (presenoldeb yn yr ysgol).

(**8**) Mewnosodir adran 16A gan adran 57 o Ddeddf 2002 ar ddiwrnod sydd i'w benodi.
(**9**) Mewnosodir adran 113A ac Atodlen 7A gan adran 72 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 9 iddi ar ddiwrnod i'w benodi.
(**10**) Mae adran 85A o Ddeddf 1998 i'w fewnosod gan adran 46 o Ddeddf 2002 a'r ddiwrnod sydd i'w benodi.
(**11**) Mewnosdwyd adrannau 509AA, 509AB a 509AC gan adran 199 o, Ddeddf 2002 ac Atodlen 19 iddi.
(**12**) Amnewidiwyd adran 518 gan adran 129 o Ddeddf 1998.

**13.** Gwariant ar ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr o dan adran 1(1) o Ddeddf Addysg 1962(**13**) ac o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**14**)).

**14.** Gwariant ar grantiau disgresiynol o dan adran 1(6) neu 2 o Ddeddf Addysg 1962 (dyfarndaliadau ar gyfer cyrsiau dynodedig a chyrsiau eraill).

**15.** Gwariant ar dalu lwfansau i bobl dros oedran ysgol gorfodol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 518(1)(b)(**15**) o Ddeddf 1996.

**16.** Gwariant ar dalu i bobl dros oedran ysgol gorfodol mewn cysylltiad â'r addysg neu'r hyfforddiant a ragnodwyd yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 181(1) o Ddeddf 2002.

### Addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion

**17.** Gwariant ar ddarparu addysg a hyfforddiant a gweithgareddau amser hamdden wedi'i drefnu a darpariaeth arall o dan adran 15A a 15B o Ddeddf 1996(**16**).

**18.** Gwariant ar y ddarpariaeth gan yr awdurdod addysg lleol o dan adrannau 15A a 508 o Ddeddf 1996 o adloniant a hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol, ac ar ddarpariaeth yr awdurdod o wasanaethau o dan adran 123 o Ddeddf 2000 i annog a galluogi'r bobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant.

### Rheoli strategol

**19.** Gwariant yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod addysg lleol mewn perthynas â'r canlynol —

(a) y Prif Swyddog Addysg a'i staff personol;

(b) cynllunio ar gyfer y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd gan gynnwys ymateb i ddatganiadau polisi a phapurau ymgynghori;

(c) swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**17**) (Gwerth Gorau) a darparu cyngor i gynorthwyo cyrff llywodraethu i gaffael nwyddau a gwasanaethau er mwyn gwella'n barhaus ar y dulliau yr arferir swyddogaethau'r cyrff llywodraethu hynny, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd a effeithiolrwydd;

(ch) paratoi cyllideb refeniw; paratoi gwybodaeth am incwm a gwariant ynghylch addysg, i'w hymgorffori yn natganiad cyfrifon blynyddol yr awdurdod; a'r archwiliad allanol i geisiadau am grantiau a'r ffurflenni a ddychwelir sy'n ymwneud ag addysg a swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 44 o Ddeddf 2002(**18**));

(d) gweinyddu grantiau i'r awdurdod (gan gynnwys paratoi ceisiadau), swyddogaethau a osodir gan neu o dan Bennod IV o Ran II o Ddeddf 1998 ac, os yw'n ddyletswydd ar yr awdurdod i wneud hynny, sicrhau'r taliadau o ran y dreth, yswiriant gwladol a chyfraniadau blwydd-daliadau;

(dd) awdurdodi a monitro —

  (i) gwariant na thelir mohono o gyfrannau cyllideb yr ysgolion; a

  (ii) gwariant mewn perthynas ag ysgolion sydd heb gyllidebau dirprwyedig,

a phob gweinyddu ariannol cysylltiedig;

(**13**) 1962 p.12.
(**14**) 1998 p.30.
(**15**) Amnewidiwyd adran 518 gan adran 129 o Ddeddf 1998.
(**16**) Mewnosodwyd adran 15A gan adran 140(1) a pharagraff 63 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998, ac adran 15B gan adran 149 a pharagraffau 1 a 55 o Atodlen 9 i Ddeddf 2000.
(**17**) 1999 p.27.
(**18**) Daw adran 44 i rym ar ddiwrnod i'w benodi.

(e) swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 28 o Ddeddf 2002 (darparu cyfleusterau cymunedol gan gyrff llywodraethu);

(f) tasgau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni cyfrifoldebau prif swyddog cyllid yr awdurdod o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**19**);

(ff) recriwtio, hyfforddi, datblygu proffesiynol parhaus, rheoli perfformiad a rheoli personél yn achos staff a gyllidir o wariant na thelir amdano gan gyfrannau cyllideb ysgolion ac a delir am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â swyddogaethau a gwasanaethau'r awdurdod y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon;

(g) ymchwiliadau a wneir gan yr awdurdod ar gyflogeion neu gyflogeion posibl yr awdurdod neu gyrff llywodraethu ysgolion, neu bersonau a gymerir ymlaen fel arall neu sydd i'w cymryd ymlaen (gyda thâl neu'n ddi-dâl) i weithio yn yr ysgolion neu drostynt;

(ng) swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â blwydd-daliadau, gan gynnwys gweinyddu pensiwn athrawon, heblaw swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion;

(h) aelodaeth ôl-weithredol o gynlluniau pensiwn ac etholiadau ôl-weithredol a wneir mewn perthynas â phensiynau pan na fyddai'n briodol disgwyl i gorff llywodraethu ysgol i dalu'r gost o gyfran cyllideb yr ysgol;

(i) cyngor, yn unol â swyddogaethau statudol yr awdurdod, i gyrff llywodraethu mewn perthynas â staff a delir, neu sydd i'w talu, i weithio mewn ysgol, a chyngor mewn perthynas â rheoli'r holl staff ar y cyd mewn unrhyw ysgol unigol ("gweithlu'r ysgol"), gan gynnwys yn benodol y cyngor o ran newidiadau mewn cyflog, amodau gwasanaeth a chyd-gyfansoddiad a chyd-drefniadaeth gweithlu ysgol o'r fath;

(j) penderfynu amodau gwasanaeth ar gyfer y staff nad ydynt yn addysgu a chynghori'r ysgolion ar raddau staff felly;

(l) swyddogaethau'r awdurdod ynghylch penodi neu ddiswyddo cyflogeion;

(ll) ymgynghori, a swyddogaethau yn barod ar gyfer ymgynghori â chyrff llywodraethu, disgyblion a phobl a gyflogir mewn ysgolion neu eu cynrychiolwyr personol, neu â chyrff eraill sydd â buddiant;

(m) cydymffurfio â dyletswyddau'r awdurdod o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974(**20**) a'r darpariaethau statudol perthnasol fel y'u diffinnir yn adran 53(1) o'r Ddeddf honno i'r graddau na ellir cael cydymffurfedd yn rhesymol drwy'r tasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion; ond gan gynnwys gwariant a dynnir gan yr awdurdod wrth fonitro perfformiad y tasgau hynny gan gyrff llywodraethu ac os oes angen rhoi cyngor iddynt;

(n) ymchwilio i gwynion a'u datrys gan gynnwys camau a gymerir i helpu corff llywodraethu i ymdrin â chwyn;

(o) gwasanaethau cyfreithiol ynghylch swyddogaethau statudol yr awdurdod;

(p) paratoi ac adolygu cynlluniau sy'n ymwneud â chydweithio â gwasanaethau awdurdod lleol arall neu gydweithio â chyrff cyhoeddus neu wirfoddol;

(ph) paratoi, addasu ac adolygu cynllun datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gyfer ei ardal o dan adrannau 120 a 121 o Ddeddf 1998(**21**) a darparu (ond nid y gwariant a awdurdodir ganddo) partneriaeth datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant o dan adran 119 o Ddeddf 1998(**22**);

(**19**) 1972 p.70.
(**20**) 1974 p.37.
(**21**) Diwygiwyd adrannau 120 a 121 gan adran 150 o Ddeddf 2002.
(**22**) Diwygiwyd adran 119 gan adran 150 o Ddeddf 2002.

(r) darparu gwybodaeth ar gyfer neu ar gais y Cynulliad Cenedlaethol, adran o'r Llywodraeth neu unrhyw gorff sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron a darparu gwybodaeth arall y mae'r awdurdod o dan ddyletswydd i drefnu ei bod ar gael;

(rh) dyletswyddau'r awdurdod o dan Erthygl 4(2) a (5) o Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001(**23**));

(s) talu'r ffioedd sy'n daladwy i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 4(4) a 9(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cyngor yn unol â rheoliadau(**24**) a wnaed o dan adran 12 o'r Ddeddf honno;

(t) gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 12 o Ddeddf 2002 (awdurdodau'n goruchwylio cwmnïau a ffurfiwyd gan gyrff llywodraethu); a

(th) gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(**25**) i'r graddau na ellir cael cydymffurfedd yn rhesymol drwy'r tasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion; ond gan gynnwys gwariant a dynnir gan yr awdurdod wrth fonitro perfformiad y tasgau hynny gan gyrff llywodraethu os oes angen rhoi cyngor iddynt.

**20.** Gwariant ar sefydlu a chynnal systemau cyfrifiadurol electronig, gan gynnwys storio data, i'r graddau y maent yn cysylltu, neu'n hwyluso cysylltiad yr awdurdod â'r ysgolion a gynhelir ganddo, rhwng ysgolion o'r fath â'i gilydd neu rhwng ysgolion o'r fath â phobl neu sefydliadau eraill.

**21.** Gwariant ar fonitro trefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n ofynnol gan orchymynion a wneir o dan adran 356 o Ddeddf 1996 ac o dan adran 108 o Ddeddf 2002(**26**).

**22.** Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â chyngor ymgynghorol sefydlog addysg grefyddol a ffurfiwyd gan yr awdurdod o dan adran 390 o Ddeddf 1996 neu wrth ailystyried a pharatoi cynllun maes llafur cytûn addysg grefyddol yn unol ag Atodlen 31 i Ddeddf 1996.

**23.** Gwariant mewn perthynas â diswyddo neu ymddeoliad cynamserol unrhyw berson neu at ddibenion trefnu ymddiswyddiad, neu mewn perthynas â gweithredoedd sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson.

**24.** Gwariant mewn perthynas â thaliadau athrawon o dan adran 19(9) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

**25.** Gwariant mewn perthynas â swyddogaethau corff priodol o dan reoliadau yn unol ag adran 19(2)(g) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**27**).

**26.** Gwariant ar benodi llywodraethwyr, gwneud offerynnau llywodraeth, talu treuliau y mae gan lywodraethwyr hawl i'w cael nad ydynt yn daladwy o gyfran cyllideb ysgol a darparu gwybodaeth i lywodraethwyr.

**27.** Unrhyw wariant ar yswiriant heblaw am atebolrwydd sy'n codi mewn cysylltiad ag ysgolion neu dir ac adeiladau ysgol.

---

(**23**) O.S. 2001/3458.

(**24**) Y rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan y ddarpariaeth hon yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002, (O.S. 2002/326 (Cy.39)).

(**25**) 1995 p.50.

(**26**) Adeg gwneud y Rheoliadau hyn y Gorchmynion perthnasol yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/45); Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 2) 1997 (O.S. 1997/2009, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/1977) a Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 1997 (O.S. 1997/2010), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1889 (Cy.40).

(**27**) Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan y ddarpariaeth hon yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/543 (Cy.77)).

**28.** Gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 47A(**28**) o Ddeddf 1998 (sefydlu a chynnal a chadw fforymau ysgolion ac ymgynghori â hwy).

(**28**) Mewnosodwyd adran 47A gan adran 43 o Ddeddf 2002.